# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 24 MEDI 2019 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon) Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:15

**Ymddiheuriadau:** Mr Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr)

## 1. Datganiadau Buddiant

1.1. Datganodd Mrs Julie May fuddiant yng Nghaerdydd
1.2. Datganodd Mr David Powell fuddiant yng Nghaerdydd
1.3. Datganodd Mr Josh Lovell fuddiant yng Nghaerdydd
1.4. Datganodd Mrs Caroline Redmond fuddiant yng Nghaerffili
1.5. Datganodd Mr Huw Blacker fuddiant yng Nghaerffili

Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod unrhyw un o'r datganiadau buddiannau yn atal y Comisiynwyr a'r swyddogion dan sylw rhag cymryd rhan lawn mewn trafodaethau a, lle y bo'n briodol, gwneud penderfyniadau, heblaw pan oedd y ward etholiadol a oedd yn benodol i unigolyn yn cael ei hystyried.

## 2. Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd

2.1. Arweiniodd y Cadeirydd drafodaethau ar yr Adroddiad Briffio a fydd bellach yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn dilyn Adroddiad Terfynol, lle y gallai fod ardaloedd a allai ysgogi cynrychiolaethau pellach i'r Gweinidog.
2.2. Wrth drafod opsiynau, **penderfynwyd** darparu tabl sy'n cynnwys cynrychiolaethau, crynodeb byr ac ystyriaethau eraill i'w ddefnyddio gan Gomisiynwyr yn ystod cyfarfodydd.
2.3. Arweiniodd y Cadeirydd drafodaethau ynglŷn â chynnal arolwg Sir Fynwy yn seiliedig ar y trefniadau newydd. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfarfod cyswllt nesaf.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Awst 2019**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân ddiwygiadau.

**4. Materion sy'n Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 27 Awst 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion sy'n Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Y Rhaglen Newid
- **(Mater 2)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach

**5. Arolwg Etholiadol Caerdydd – Adroddiad Drafft**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

5.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau - 77</u>**

5.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn y ddwy iaith:

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Adamsdown | Adamsdown |
| Butetown | Butetown |
| Caerau | Caerau |
| Canton | Treganna |
| Cathays | Cathays |
| Cyncoed | Cyncoed |
| Ely | Trelái |

| | |
|---|---|
| Fairwater | Y Tyllgoed |
| Gabalfa | Gabalfa |
| Grangetown | Grangetown |
| Heath | Y Mynydd Bychan |
| Lisvane and Thornhill | Llys-faen a Draenen Pen-y-graig |
| Llandaff | Llandaf |
| Llandaff North | Ystum Taf |
| Llanishen | Llanisien |
| Llanrumney | Llanrhymni |
| Pentwyn | Pentwyn |
| Pentyrch and St. Fagans | Pentyrch a Sain Ffagan |
| Penylan | Penylan |
| Plasnewydd | Plasnewydd |
| Pontprennau and Old St. Mellons | Pontprennau a'r Hen Laneirwg |
| Radyr | Radur |
| Rhiwbina | Rhiwbeina |
| Riverside | Glanyrafon |
| Rumney | Tredelerch |
| Splott | Y Sblott |
| Trowbridge | Trowbridge |
| Whitchurch and Tongwynlais | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais |

## 6. Arolwg Etholiadol Caerffili – Adroddiad Drafft

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2019 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau - 69</u>**

6.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. I'w diwygio a'u cytuno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn:

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Aber Valley | Cwm Aber |
| Aberbargoed and Pengam | Aberbargoed a Phengam |
| Abercarn | Abercarn |
| Argoed | Argoed |
| Bargoed and Gilfach | Bargoed a Gilfach |
| Bedwas and Trethomas | Bedwas a Threthomas |
| Blackwood | Coed-duon |
| Cefn Fforest | Cefn Fforest |
| Crosskeys and Ynysddu | Crosskeys ac Ynys-ddu |
| Crumlin | Crymlyn |
| Darran Valley | Cwm Darran |
| Hengoed | Hengoed |
| Llanbradach | Llanbradach |
| Machen and Rudry | Machen a Rhydri |
| Maesycwmmer | Maesycwmmer |
| Morgan Jones | Morgan Jones |
| Moriah and Pontlottyn | Moriah a Phontlotyn |
| Nelson | Nelson |
| New Tredegar | Tredegar Newydd |
| Newbridge | Trecelyn |
| Penmaen | Pen-maen |
| Penyrheol | Penyrheol |
| Pontllanfraith | Pontllanfraith |
| Risca East | Dwyrain Rhisga |
| Risca West | Gorllewin Rhisga |
| St. Catwg | Sant Catwg |
| St Martins | Sant Martin |
| Twyn Carno | Twyncarno |
| Van | Fan |
| Ystrad Mynach | Ystrad Mynach |

## 7. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu gweithredu.

7.3. **Cytunwyd** y byddai dau gam gweithredu lliniarol ychwanegol yn cael eu hychwanegu at risg CR4 ynglŷn ag addasu ymagwedd tîm tuag at arolygon sy'n parhau pe byddai'r amserlen arolygu yn cael ei chywasgu, a rhoi Adroddiadau Briffio i Lywodraeth Cymru gydag adroddiadau Argymhellion Terfynol.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** y tanwariant blynyddol amcangyfrifedig a chytunwyd y bydd angen i rywfaint ohono gael ei ailddosbarthu i hyfforddiant staff, system cronfa ddata newydd a gwella'r porth arolygon.

## 9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Medi gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Gwnaed diwygiad i gywiro ffigur yn y Dadansoddiad o'r Nod o ran Maint Cynghorau.

9.3. Trafodwyd p'un a allai Etholiad Cyffredinol posibl effeithio ar yr amserlen ar gyfer rhai arolygon. Cytunwyd y dylid cysylltu â phob Awdurdod Lleol i ofyn beth fyddai'n well ganddo mewn perthynas â hyn.

9.4. Gwnaed newid i allwedd yr Amserlen i ddisodli Atal Dros Dro ag Yn yr Arfaeth, a dileu Aros am Arolwg yn achos arolwg Sir Fynwy.

9.5. **Nodwyd** cynnwys gweddill yr adroddiad.

## 10. Polisïau Adnoddau Dynol – Disgyblu a Thanberfformiad

10.1. Dylid ychwanegu cyflwyniad at yr adroddiad a dylai Atodiad C egluro bod y Rheolwr Cymorth Busnes (BSM) yn cyflawni rôl yr adran Adnoddau Dynol. Dylid hefyd ychwanegu gwybodaeth ynglŷn ag Ymchwilydd Annibynnol os bydd angen. Trafodwyd defnyddio'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) os yw'n briodol.

10.2. Atodiad C i gynnwys adran ar berfformiad gan danberfformiwr yn rhif 5.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 12. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

12.1. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ganfyddiadau ‘cwsmer cudd’ Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â rhai o’n dogfennau gwe Saesneg, a’r angen i nodi mewn dogfennau eu bod ar gael yn Gymraeg hefyd.

12.2. Trafodwyd a chytunwyd i gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer System Alwadau Ddwyieithog.

12.3. Roedd dau weithdy i’w cynnal yn ddiweddarach yn y prynhawn lle y byddai’r Comisiynwyr yn ystyried sut i ailstrwythuro a dosbarthu’r arolygon bodlonrwydd, yn ogystal ag ailystyried Gwerthoedd y Comisiwn.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 29 Hydref 2019**